Cofnodion Grŵp Strategol 24/02/2010 – 10:30yb Ystafell Telford, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam

Presennol:
Merfyn Jones, Prifysgol Bangor (Cadeirydd); Jim O'Rourke (Nant Gwrtheyrn); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg); Kevern Kerswell (Coleg Iâl); Jane Watkins (Coleg Llyfasi); Fred Cunningham (Coleg Llysfasi); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo); Huw Evans (Coleg Llandrillo); Gwyn Lewis (Prifysgol Bangor); Thomas Moore (Prifysgol Glyndŵr); Ian Rees (Coleg Meirion Dwyfor); Trefor Fôn Owen (Coleg Harlech WEA); Meinir Tomos Jones (Coleg Harlech WEA); Ifor Gruffydd, Haydn Hughes, Ellen Roberts (CCiO), Wyn Hobson (Cyfieithydd).

Ymddiheuriadau:
Phil Bassett (Prifysgol Glyndŵr); Debbie Tebbutt (Coleg Menai)

Cafodd Papur 'A', Papur 'B', Papur 'C', Papur 'Ch', Papur 'D', Papur 'DD', Papur 'E' a Phapur 'F' eu dosbarthu cyn y cyfarfod.

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb i Brifysgol Glyndŵr.

1. Cofnodion cyfarfod 04/11/09 (Papur 'A') – derbyniwyd y cofnodion.

2. Materion yn codi o'r cofnodion
Eitem 2 - Llongyfarchwyd y bartneriaeth yng Ngwynedd a Môn yn dilyn canlyniad rhagorol arolwg Estyn.
Eitem 5 – Nid yw APADGOS mewn sefyllfa ar hyn o bryd i ad-dalu ffioedd cyrsiau mewn achosion o lwyddo, gorffen cyrsiau neu ymrestru ar gwrs dilynol, ond maent yn ymwybodol fod hyn yn digwydd mewn rhai gwledydd eraill a bydd y syniad yn derbyn ystyriaeth yn y dyfodol.
Eitem 8 – IG wedi cylchredeg holiadur 'Cwrs lefel Canolradd i Ddarlithwyr'. Gofynnwyd iddo gael ei ddychwelyd erbyn 26/02/2010 er mwyn symud ymlaen.

3. Cofnodion Panel Ansawdd 10/02/10 (Papur 'B) – derbyniwyd y cofnodion. Dygodd HH sylw'r aelodau at y materion canlynol.
3. CCiO wedi bod yn rhan o'r peilot 'cwestiynau craidd' a holiaduron wedi eu dosbarthu ar ran APADGOS. Barn y Panel Ansawdd oedd fod y cwestiynau yn amherthnasol ac yn anaddas i ddysgwyr CiO. Bydd y farn yma yn cael ei phasio ymlaen i APADGOS.
8. Y Ganolfan wedi dechrau ar gylch 2009/10 o arsylwi a chanlyniadau Gwynedd a Môn a arsylwyd ym mis Tachwedd yn gadarnhaol ac yn dangos cynnydd yn yr ansawdd. Bydd tiwtoriaid y pedair sir arall yn cael eu harsylwi ym mis Mawrth a gobeithio y bydd y canlyniadau yr un mor ffafriol. Mae yn arwyddocaol fod 40% o'r tiwtoriaid hynny fynychodd hyfforddiant ôl-arsylwi'r Ganolfan wedi codi o leiaf un radd.
10. AHA a CDA – Cafwyd cymorth gan Ian Dickson o Goleg Glannau Dyfrdwy fel cyfaill beirniadol wrth lunio'r adroddiadau. Mae hyn wedi bod o gymorth mawr ac yn cael ei werthfawrogi. Bydd HH a SD yn mynd ati i drosglwyddo'r adroddiadau i'r Fframwaith Newydd er mwyn cael model i weithio arno y flwyddyn nesaf.

4. Cofnodion Panel Darparwyr 10/02/10 (Papur 'C') - derbyniwyd y cofnodion a nododd HH mai sail ar gyfer trafodaeth oedd cyflwyniad y Swyddogion Datblygu. Cafwyd safbwyntiau cryf a byddant yn cael sylw pendant cyn ail-ddrafftio papur 'cyrsiau blasu'.

5. Polisi Ad-hawlio cyllid am fethu targedau WCEU (Papur 'Ch') – cyflwynodd IG y papur gan ofyn am farn y panel ar yr argymhellion oedd ynddo:

- yr aelodau yn cytuno ar gynnwys y papur a'r argymhellion.
- dywedwyd fod ceisio cyrraedd y targed yn peri costau hyd yn oed os yw cyrsiau yn methu. Bydd IG yn edrych eto ar opsiynau.
- pwysigrwydd tryloywder ynglŷn a sut bydd ad-daliadau yn cael eu gwario, hyn i fod yn gyson a'r strategaeth, a gwybodaeth i gael ei rannu yn agored a chlir.
- amgylchiadau na ellir eu rheoli yn effeithio ar gofrestriadau/gyflawniad e.e. tywydd garw, gofyn i'r Cynulliad roi ystyriaeth i hyn fel y bo'n briodol.

6. Darpariaeth Fodiwlar ym maes CiO yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy (Papur 'D') – cyflwynodd IG y papur a baratowyd gan Diane Martin o CGD. Dywedodd fod canfyddiadau cynnar yn dangos fod cyrsiau modiwlar yn fwy llwyddiannus ond rhaid aros i ddarganfod beth yw eu heffaith ar ddilyniant. Mae'r manteision a'r anfanteision a welwyd yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy yn debyg iawn i'r hyn yr oedd y Ganolfan wedi'i ragweld. Dywedwyd fod Coleg Llandrillo yn bwriadu cyflwyno cyrsiau modwlar ar draws nifer o bynciau a bod hyn yn ddatblygiad pwysig i'r dyfodol. Y farn oedd:

- yr aelodau o blaid y syniad o ran egwyddor
- angen cael y darlun yn llawn, yn enwedig sut effaith sydd ar ddilyniant, cyn gwneud unrhyw benderfyniad
- sicrhau fod y Cynulliad yn ymwybodol fod peilot yn cael ei gynnal ac os bydd yn llwyddiant byddwn yn symud ymlaen
- un o gryfderau'r ddarpariaeth yn y gogledd yw'r amrywiaeth o fathau o gyrsiau a chyflymder cyrsiau sy'n gweddu at gynulleidfa amrywiol
- cynamserol i ddod i gasgliadau pendant, anelu i gyflwyno cyrsiau modwlar ar draws y bwrdd yn 2011/2012 yn amodol ar gyfraddau dilyniant derbyniol.

7. Hyfforddiant (Papur 'Dd') –

- cyflwynodd HH y papur a nododd fod gwelliant i bwynt 4 yn dilyn cyfarfod y bu ynddo 20/02/2010. O 2010 ymlaen mae'r Cymhwyster yn debygol o fod yn gwrs cyfunol gyda mewnbwn electroneg yn rhan o bob uned.
- Mae 24 o ddarpar diwtoriaid wedi eu recriwtio o ardaloedd lle mae angen tiwtoriaid newydd ac maent wedi dechrau ar raglen o hyfforddiant. Gofynnwyd am gydweithrediad partneriaid er mwyn adnabod ardaloedd o brinder a thargedu recriwtio yn yr ardaloedd hynny mewn blynyddoedd i ddod.
- Gofynnwyd a fyddai'r 7 tiwtor sy'n mynychu Cynhadledd IATEFL yn Harrogate yn paratoi papur byr, pwyntiau bwled, yn adrodd ar y sesiynau y bu iddynt fynychu i'w rannu gyda'r aelodau.
- Mae'r Ganolfan wedi cynnal trafodaeth gyda'r Ysgol Addysg, y gobaith yw cynnwys modiwl CiO yn y cwrs MEd.

8. Gwella Cyfraddau Cwblhau – (Papur 'E') - cyflwynodd IG y papur gan nodi ei bod yn fwriad rhannu gwybodaeth am arferion da ymysg partneriaid. Holodd IG farn yr aelodau am werth cynnal astudiaeth o pam fod dysgwyr yn gadael cyrsiau a chanfod pa ganran o ddysgwyr sy'n gadael am resymau y gallwn ddylanwadu arnynt. Cytunwyd y byddai mwy o fudd cynnal astudiaeth pam nad yw pobl yn ymrestru o gwbl – canran fechan iawn o boblogaeth Wrecsam yn ddysgwyr.

9. Strategaeth Cymraeg i'r Teulu (Papur 'F') - Cyflwynodd IG y papur gan egluro cefndir y ddarpariaeth a phwysigrwydd dilyniant i gyrsiau prif ffrwd ar ôl y cyrsiau blasu. Ar hyn o bryd mae'r cyrsiau blasu yn cael eu cynnal gan Golegau Addysg Bellach a'r cwrs Prif Ffrwd gan Goleg Harlech. Cafwyd un gwelliant i'r papur drwy nodi y dylid sicrhau mwy o hyblygrwydd o ran pwy fydd yn darparu'r cyrsiau blasu, a hynny er mwyn medru ymateb i sefyllfaoedd achlysurol lle na all Colegau Addysg Bellach ddarparu'r cyrsiau. Bydd y Ganolfan yn mynd ati i hyfforddi tiwtoriaid ar gyfer y ddau fath o gwrs. Pwysleisiwyd pwysigrwydd egluro wrth unigolion ar gwrs blasu fod gwahanol opsiynau wrth symud ymlaen i gwrs prif ffrwd. Bydd y gwendidau a'r bygythiadau yn y papur SWOT yn cael sylw.

Nid oedd **unrhyw fater arall**. Diolchwyd i'r rhai oedd yn bresennol ac i'r cyfieithydd am ei waith safonol.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghanolfan Nant Gwrtheyrn ar y 16eg Mehefin 2010.

Minutes of the meeting of the Strategic Group, 24/02/2010 at 10:30am in the Telford Room, Glyndŵr University, Wrexham

Present:
Merfyn Jones, Bangor University (Chair); Jim O'Rourke (Nant Gwrtheyrn); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg); Kevern Kerswell (Yale College); Jane Watkins (Coleg Llysfasi); Fred Cunningham (Coleg Llysfasi); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo); Huw Evans (Coleg Llandrillo); Gwyn Lewis (Bangor University); Thomas Moore (Glyndŵr University); Ian Rees (Coleg Meirion Dwyfor); Trefor Fôn Owen (Coleg Harlech WEA); Meinir Tomos Jones (Coleg Harlech WEA); Ifor Gruffydd, Haydn Hughes, Ellen Roberts (WfAC), Wyn Hobson (Interpreter).

Apologies:
Phil Bassett (Glyndŵr University); Debbie Tebbutt (Coleg Menai)

Paper 'A', Paper 'B', Paper 'C', Paper 'Ch', Paper 'D', Paper 'Dd', Paper 'E' and Paper 'F' had been distributed before the meeting.

The Chair opened the meeting and welcomed everyone to Glyndŵr University.

1. Minutes of the meeting of 04/11/09 (Paper 'A') — the minutes were accepted.

2. Matters Arising from the minutes
Item 2 — The partnership in Gwynedd and Anglesey was congratulated following the excellent outcome of the Estyn inspection.
Item 5 — DCELLS was not at present in a position to repay course fees in cases of success, completion of courses or enrolment for a follow-up course; but it was aware that this happened in some other countries, and the idea would be considered in the future.
Item 8 — IG had circulated a questionnaire, 'Intermediate level Course for Lecturers'. He asked that this be returned by 26/02/2010 in order for progress to be made.

3. Minutes of the meeting of the Quality Panel on 10/02/10 (Paper 'B') — the minutes were accepted. HH drew members' attention to the following matters:
3. WfAC had been part of the 'core questions' pilot, and questionnaires had been distributed on behalf of DCELLS. The Quality Panel's view was that the questions were irrelevant and unsuitable for WfA learners. This view would be conveyed to DCELLS.
8. The Centre had started on the 2009/10 observation cycle, and the results from Gwynedd and Anglesey, which had been the subjects of observation in November, were positive and showed an increase in quality. Tutors in the four other counties would be observed in March, and it was hoped that the results would be equally favourable. It was significant that 40% of those tutors who had attended the Centre's post-observation training had improved by at least one grade.
10. SAR and QDP — Ian Dickson of Deeside College had assisted as a critical friend in the drawing up of the reports. This had been a great help and was appreciated. HH and SD would set about transferring the reports into the New Framework in order to have a model to work on next year.

4. Minutes of the meeting of the Providers' Panel on 10/02/10 (Paper 'C') — the minutes were accepted, and HH noted that the presentation by the Development Officers had been intended as a basis for discussion. Strong views had been expressed, and these would receive attention before the paper on taster courses was redrafted.

5. Policy on clawing back funding because of failure to reach WCEU targets (Paper 'Ch') — IG presented the paper, and asked the panel's views on the recommendations contained therein:

- The members agreed on the paper's contents and recommendations.
- It was stated that attempting to reach the target gave rise to costs even if the courses failed. IG would look again at options.
- The importance of transparency as to how rebates would be spent was noted. This was to be consistent with the strategy, and information was to be shared openly and clearly.

- Circumstances beyond our control were affecting registrations/fulfillment, e.g. bad weather. It was decided to ask the Assembly to give consideration to this as appropriate.

6. Modular Provision in the field of WfA at Deeside College (Paper 'D') —IG presented the paper that had been prepared by Diane Martin of Deeside College. He said that early findings showed that modular courses were more successful, but it was necessary to wait and see what their effect on progression would be. The advantages and disadvantages seen at Deeside College were very similar to those the Centre had foreseen. It was stated that Coleg Llandrillo intended to introduce modular courses across a number of subjects, and that this was an important development for the future. Members' views were:

- that they favoured the idea in principle
- that they needed to have the full picture, particularly as regards the effect on progression, before making any decision
- that we should ensure the Assembly Government was aware that a pilot was being run, and that if it was a success we would move forward
- that one of the strengths of the provision in North Wales was the variety of types of course and course speeds, which suited a varied audience
- that it was too soon to come to definite conclusions, and that we should aim to introduce modular courses across the board in 2011/2012, subject to acceptable progression rates.

7. Training (Paper 'Dd') —

- HH presented the paper, and noted that there was an amendment to point 4 following a meeting he had attended on 20/02/2010. From 2010 onwards, the Qualification was likely to be a combined course in which there was electronic input to every unit.
- 24 prospective tutors had been recruited from areas where new tutors were needed, and they had embarked on a programme of training. The cooperation of partners was requested, in order to identify areas of shortage and target recruitment at those areas in the years to come.
- A request was made that the 7 tutors who would be attending the IATEFL Conference in Harrogate prepare a short paper, comprising bullet points and reporting on the sessions they had attended, to be shared with the members.
- The Centre had had a discussion with the School of Education, and it was hoped to include the WfA module on the MEd course.

8. Improving Completion Rates (Paper 'E') — IG presented the paper, noting that it was intended that information about good practice be shared among the partners. IG asked members' opinion on the value of carrying out a study of the reasons why learners left courses, and identifying what percentage of learners left for reasons we could have an influence upon. It was agreed that it would be more beneficial to carry out a study of why people did not enroll at all — only a very small proportion of the population of Wrexham were Welsh learners.

9. The Welsh for the Family Strategy (Paper 'F') — IG presented the paper, explaining the background to the provision and the importance of progression to mainstream courses after the taster courses. At present the taster courses were being run by Further Education Colleges, and the Mainstream course by Coleg Harlech. One amendment was made to the paper, noting that we should ensure greater flexibility as regards who would provide the taster courses, in order to be able to respond to occasional situations where Further Education Colleges could not provide the courses. The Centre would set about training tutors for both types of course. The importance was emphasised of explaining to individuals on a taster course that there were different options for moving on to a mainstream course. The weaknesses and threats identified in the SWOT paper would receive attention.

There was **no other business**. Thanks were extended to all who had attended, and to the interpreter for his excellent work.

The next meeting will be held at Nant Gwrtheyrn Centre on 16th June 2010.